# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 05 Mai Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar Ddydd Mercher yr 10fed o Fai 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, E Audrey Jones, June Gunter, Loreen Lewis, Keith Rees, Carwyn James, Graham Vaughan, Annette Price a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Peter Cowell a Delyth Richards.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 12 fed O EBRILL 2006.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur bod ganddi welliant i wneud - tudalen 5, 8.2 delai ddarllen fod Un Llais I Gymru wedi colli rhai o’i aelodaeth.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn cywiro’r cofnodion.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter fod cofnodion cyfarfod yr 12fed o Ebrill 2006 yn gywir ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Llwybr Troed 3/14 a 3/16.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar drefn cau dros dro'r llwybrau 3/14 a 3/16, cyn belled ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn achos nid yw nhw’n ymwybodol o unrhyw dref cau dros dro am y llwybrau uchod.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.2 Goleuo’r Eglwys.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi bod yn siarad gyda W Kingsbury sydd wedi dweud bod eisiau cael y mesuriad y groes weithio allan cost y groes. Gofynnodd y Cynghorwr Keith Rees os yw croes dur yn well na chroes bren. Penderfynwyd y Cynghorwyr i edrych at gost groes dur.
PENDERFYNWYD: bod y Cynghorwr Annette Price yn cael mesuriadau'r groes ar Eglwys Llandybie ac wedyn fod y Cynghorwr Keith Rees yn gwneud ymholiad mewn i gost groes dur.

2.3 Cynllun Llwybr Diogel I Ysgolion.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Thomas o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar gynllun Llwybr Diogel I Ysgolion. Mae Mr Thomas wedi adrodd taw yn anffodus dim ond Ysgol Y Betws syn gallu ceisio am y cyllid, ond Mae Cyngor Cymuned Y Betws yn gallu helpi’r Pennaeth os yw am gael help.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.4 Cyngor Sir Caerfyrddin - Ymgyrch I lanhau Sir Gaerfyrddin.
Gofynnodd y Cynghorwr Carwyn James i’r Cynghorwyr os yw’n gallu newid y dyddiad am yr ymgyrch i lanhau i’r 24ain o fis Mai oherwydd nid yw’n gallu fod yn bresennol ar y 25ain o fis Mai. Penderfynwyd y Cynghorwyr for yr ymgyrch i lanhau Sir Gaerfyrddin yn cymryd lle ar yr 24ain o fis Mai am 6.00 yr hwyr, yn cwrdd wrth y bont ar Heol Y Cyrnol, Betws.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.5 Llwybr Troed 68/11.
Gofynnodd y Cynghorwr Anrallt James i'r Clerc os yw hi wedi derbyn ymateb yw llythyr ynglyn ar lwybr troed 68/11, oherwydd fel adroddodd fod yna trochfa ar ddiwedd y llwybr troed wrth erbyn y rhan sydd wedi cael ei gorchuddio gyda cherrig man. Dywedodd y Clerc nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn wrth Gyngor Sir Gaerfyrddin. Cynigwyd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliwyd gan y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn erlyn y mater gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Davies Craddock - Premiwm Yswiriant.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Davies Craddock yn Llanelli sydd yn gofyn a yw Cyngor Cymuned Y Betws am gael dyfynbris am yswiriant. Trafodwyd hwn gan y Cynghorwyr, ac fe benderfynwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn cael dyfynbris am yswiriant wrth Davies Craddock.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn cael dyfynbris am yswiriant wrth Davies Craddock.

3.2 Cyngor Sir Caerfyrddin - Cysgod Bws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hid wedi derbyn gohebiaeth wrth Gyngor Sir Gaerfyrddin a oedd yn gofyn a yw Cyngor Cymuned Y Betws yn berchen neu yn dadlau unrhyw gysgod bws ym Metws. Nid yw Cyngor Cymuned y Betws yn berchen neu ddadlau unrhyw gysgod bws ym Metws. Roedd y Cynghorwyr wedi adrodd fod yna ddau gysgod bws ym Metws sydd yn gyflwr gwael iawn. Mae un gyferbyn a'r Plough ac yr un arall ar Heol Waungron, Betws.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Gaerfyrddin i roi gwybod iddynt am y ddau gysgod bws uchod.

3.3 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Strategaeth Parcio.
2 Cyngor Sir Caerfyrddin - Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin - Addasiadau a Fwriedir a Datganiad yr Ymateb I Adroddiad yr Arolygwr - Ebrill 2006 rhoddwyd I Gynghorwr Menna Roberts.
3 Llywodraeth Gynulliad Cymru - Canllaw arfer da i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
4 Un Llais I Gymru - Cynrychiolydd am Gyfarfodydd Pwyllgor yr Ardal.
5 Partneriaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles Sir Gaerfyrddin Sioe Ffordd rhoddwyd i Gynghorwr Menna Roberts.
6 Bwrdd Iechyd Lleol - Adolygiad Ymgynghoriad.
7 Mr Lewis - ynglyn ar ardal chware are Heol Maescware.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae yna apêl wedi cael ei rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn y rhybudd enforcement hanfonwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ynglyn ar dir gyff agos I Weithdy Peirianneg Aman, Heol Pentwyn, Betws.

4.2 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi diystyru'r apêl ynglyn â blot o dir rhan o 2 Heol Waungron, Betws, Rhydaman.

4.3 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r canlynol:-
E/11135 - Estyniad i barlwr angladd presennol at 39 Heol Y Betws, Betws (2005/17).

4.4 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwrthod y canlynol:-
E/12279 - Estyniad dau lawr i'r shop, Gorsaf Llenwad Stryd y Parc, Betws (2005/28)

5. CYFRIFON.

1. Lwfans y Cadeirydd (3ydd ar randal diwethaf) £100.00
2. Resq (Meddalwedd) £41.13
3. Sara Thomas (Rhodd Ariannol) £100.00
CYFANSWM £241.13
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Fe dderbyniwyd cais am gymorth ariannol wrth Sara Thomas, mae hi'n cynrychioli Cymru yn yr achlysur rhyngwladol arweinydd merched sydd yn cymryd lle yng Nghanada ym mis Gorffennaf. Trafodwyd gan y Cynghorwyr ac fe gynigwyd y Cynghorwr Annette Price ac eiliwyd gan y Cynghorwr Carwyn James for rhodd o £100 yn cael ei rhoi i Sara Thomas. Fel arfer fydd hyn yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Ariannol, ond nid yw'r cyfarfod nesaf tan fis Gorffennaf a fydd yn rhy hwyr i roi cymorth ariannol.
PENDERFYNWYD: I roi rhodd o £100 i Sara Thomas.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 7 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Ebrill. Ar hyn o bryd mae 4 trosedd wedi'u datrys.

Bu 336 o bobl ifainc yn bresennol yn y Disgo Glas a gynhaliwyd ym mis Ebrill. Mae'r Disgo Glas nesaf ar y 25ain o fis Mai.

Adroddodd PC Jones am bwyntiau a godwyd yn cyfarfod mis diwethaf:-
- Merched yn taflu cerrig ym Mharc Bwtrimawr.
- Mini Motors - Parc Woodlands.
- Cerbydau Claf.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ar y canlynol:-
1. Gwaith Glo Rhif. 1 Rhydaman - mae ef wedi derbyn gohebiaeth wrth yr Awdurdod Glo sydd wedi cadarnhau fod perchennog y tir wedi awdurdodi nhw i wneud gwaith adferol.
NODWYD: y pwynt uchod.
2. Llif ar waelod Heol y Cyrnol - Roedd ên pryderi oherwydd pan mae glaw trwm mae dwr yn cael ei difyrru mewn i Nant Y Fin ac mae hyn yn achosi trigolion achos mawr yn enwedig ar hyd Heol Maescware. Cynigwyd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliwyd y Cynghorwr Keith Rees fod llythyr yn cael ei hysgrifennu at yr Asiantaeth Amgylched a hefyd i'r Adran Amgylchedd o'r Cyngor.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Asiantaeth Amgylchedd a hefyd i'r Adran Amgylchedd o Gyngor Sir Caerfyrddin.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Llwybrau Troed.
Diweddarodd y Cynghorwr Menna Roberts yn absenoldeb y Cyngorwr Peter Cowell am y llwybrau ym Metws.
NODWYD: y pwynt uchod.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Parc Nant-Y-Felin, Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Audrey Jones wrth y Cynghorwyr nid oes yna arwyddion syn dweud yr enw 'Parc Nant-Y-Felin', nid oes yna oleuadau stryd ar y safle a hefyd mae rhaid i'r trigolion ddod ai sbwriel lawr at y Briffordd oherwydd nid yw'r sbwriel yn cael ei gasglu o'r stryd. Cynigwyd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.2 Golwg Y Mynydd.
Dywedodd y Cynghorwr Audrey Jones wrth y Cynghorwyr bod trigolion wedi bod yn cwyno am y gwynt cryf o garthffosiaeth sydd yn dod o safle Golwg Y Mynydd. Penderfynodd y Cynghorwyr bod y Clerc yn ysgrifennu i'r Adran Amgylchedd Iechyd i ofyn iddynt ymchwilio mewn i'r uchod.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Amgylchedd Iechyd o Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.3 Ardal Chwarae Heol Y Felin.
Roedd y Cynghorwr Keith Rees yn pryderi oherwydd bod plant yn casglu gwair wrth yr ardal chwarae ac maen nhw ceision roi'r gwair ar dan. Penderfynwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a yw'r gwair yn gallu cael ei dorri mwy aml a hefyd gall y gwair gael ei gasglu ar ôl iddo gael ei dorri.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Gwasanaethau Technegol o Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.4 Prydles - Parc Betws.
Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price i'r Clerc os yw hi wedi derbyn ymateb wrth y Cyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar brydles i barc Betws. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ymateb wrth yr Adran Gyfreithiol o Gyngor Sir Caerfyrddin. Penderfynodd y Cynghorwyr bod y Clerc yn dilyn y mater hwn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Gyfreithiol o Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.5 Heol Pentwyn, Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr for yr arwydd dros bwysau (arwydd llwyth trwm) wedi cael ei gorchuddio gyda mieri ar Heol Pentwyn. Penderfynwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a gall y mieri cael ei dorri nôl.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Gwasanaethau Technegol o Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.6 Rhodfa syn arweiniol wrth Heol Pentwyn i'r Club Nos Ty Coch.
Gofynnodd y Cynghorwr June Gunter os yw'r Clerc wedi derbyn ymateb ynglyn ar uchod. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn, hefyd dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi dilyn y mater hwn i fyny mis diwethaf, ond nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. Penderfynwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyr arall at Gyngor Sir Gaerfyrddin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Gwasanaethau Technegol o Gyngor Sir Caerfyrddin.